| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau a Gytunwyd |
|---|---|---|---|
| 11/4/24 | Y Cyng Eifion Roberts yn y cais am gymorth ariannol i brosiectau Ysgol Godre'r Berwyn. | **Presennol :** Y Maer Eifion Roberts, y Cyng Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Jacqueline Allen, Sion McGuiness, Eluned Jones a Moira Mai.<br>Cyng Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd)<br>Huw Antur *(Clerc)* | • Derbyn ymddiswyddiad y Cyng John C Williams ar ôl 48 mlynedd o wasanaeth.<br>• Cytuno ar safleoedd ar gyfer Cynllun Celf Canol Tref.<br>• Cytuno i beidio gwrthwynebu cau'r ffordd yn ystod Triathlon 2024.<br>• Bwrw ymlaen i archebu basgedi blodau i harddu'r dref, hyn gyda chymorth ariannol Parc Cenedlaethol Eryri.<br>• Trefnu cyfarfod gyda swyddogion priffyrdd i greu Rhaglen Waith ar gyfer gwelliannau i'r Stryd Fawr.<br>• Cytuno i fabwysiadu polisi o ystyried y Gymraeg ymhob penderfyniad gan y Cyngor.<br>• Gwneud ymdrech i ddod a'r Bala yn dref 'gwenyn gyfeillgar'.<br>• Cyfrannu £150 tuag at gostau gosod sinc yn Ysgol Godre'r Berwyn i hwyluso trefniant yr Ysgol a Theatr Derek Williams.<br>• Cyfrannu o Gronfa'r Maer at gostau cyflenwad dwr i Ardd Gymunedol y Bala. |